# Deufis

**Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi** **Gorffennaf—Awst—Medi 2026**

**(Am wybodaeth ddiweddaraf am oedfaon Brynhafod, gweler y dudalen What's app)**

**Sul 5 Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Noddfa | 5.00 yr hwyr | Gweinidog-Cymun |

**Sul 12 Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Y Canon Aled W. Williams |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog– Cymun |

**Sul 19 Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa, Bethel a Chaersalem (yn Noddfa) | 10.00 y bore | Parchg Jill Tomos |
| Aberduar, Seion a Bryn Hafod (ym Mryn Hafod) | 2.00 y pnawn | Parchg Jill Tomos |

**Sul 26 Gorffennaf**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog |
| Seion, Bryn Hafod ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog |

***Dim oedfaon ym Mis Awst hyd at 30 Awst***

**Sul 30 Awst Noddfa 10.30**

**Oedfa Eisteddfod Rhys Thomas James**

**Parchg Eirian Wyn Lewis**

## Oedfaon Mis Medi

**Sul 6 Medi**

| | | |
|---|---|---|
| Aberduar | 10.00 y bore | Delyth Morgans Phillips-Cymun |
| Brynhafod | 10.30 y bore | Ysgol Sul |
| Noddfa a Caersalem (yn Noddfa) | 5.00 o'r gloch | Delyth Morgans Phillips-Cymun |

**Sul 13 Medi**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Gweinidog-Cymun |
| Seion ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog-Cymun |

**Sul 20 Medi**

| | | |
|---|---|---|
| Noddfa | 9.30 y bore | Gweinidog |
| Aberduar | 11.00 y bore | Gweinidog |

**Sul 27 Medi**

| | | |
|---|---|---|
| Bethel | 10.15 y bore | Dylan Lewis |
| Seion, Brynhafod ac Aberduar (yn Seion) | 2.00 y pnawn | Gweinidog |

**Nos Lun 28 Medi**
7.00 yr hwyr
Diolchgarwch Noddfa
Y Parchg Eirian Wyn Lewis

## Wythnos Cymorth Cristnogol, 11-17 Mai

Cafwyd llu o weithgareddau ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol eleni: Cymanfa Ganu Soar dan arweiniad Delyth Morgans Phillips; gwasanaeth arbennig ym Methel Silian; boreau coffi Eglwys Sant Iago ac Eglwys San Pedr; 'Songs of Praise' Eglwys Sant Thomas ynghyd ag amrywiaeth o bethau eraill. Diolch yn neilltuol i Rhys a Shân Bebb Jones am gydlynu'r cwbl.

Y swm a gasglwyd hyd at 15 Mehefin oedd £4824.51c

**Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed**

Cafwyd Cymanfa hapus a llwyddiannus yn Noddfa ar Sul 17 Mai o dan arweiniad ysbrydoledig Rhiannon Lewis.  Ymhlith y gynulleidfa roedd un wedi dod yr holl ffordd o Inverness, hithau ar ei gwyliau yng Nghymru ac wedi gweld yr hysbyseb ar-lein. Diolch, Delyth, am yr hysbysebu! Llywyddwyd yn ddeheuig iawn gan Elfyn Davies, Bethel Cwm-pedol, ac wedi ei hanhwylder, braf oedd gweld Alwena yn ôl wrth yr organ. Llinos a Delyth a gymerodd at y rhannau arweiniol.

Roedd canu pedwar llais y gynulleidfa yn ysbrydoledig a swynwyd pawb gan gyfraniad criw bach Ysgol Sul Noddfa—gweler y llun isod—mewn pennill a chân gyda phob un ohonynt wrth eu bodd gyda'r emynau yn arbennig 'Dawns y Sêr' gyda'r gerddoriaeth o waith Rhiannon. Gwych hefyd oedd unawdau Lowri Elen a Trystan Bryn.




Roedd Rhiannon wedi dewis emynau allan o raglenni Cymanfaoedd ei hieuenctid ac wedi dod â sawl rhaglen gyda hi, un yn dyddio nôl i 1966!! Ymhlith yr emynau oedd 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw', a 'Mae'r Arglwydd yn cofio y dryw yn y drain'. Pleser oedd gweld hyd yn oed y plant yn ymuno wrth ganu'r hen ffefrynnau.

Diolchwyd ar y diwedd nid yn unig i Rhiannon a'r plant ond i Janet am ei gwaith di-flino gyda'r Ysgol Sul a'i hymroddiad cyson er mwyn sicrhau fod y Gymanfa yn parhau. I orffen y dathliadau cafwyd te blasus wedi'i baratoi gan ffyddloniaid Noddfa yn Festri Brondeifi.

Fel y dywedodd un a oedd yno: 'Un o'r goreuon' -
y te yn ogystal â'r Gymanfa!

**TRIP YR OFALAETH CAPEL BLAENANNERCH AC ABERTIFI**



Cawsom ddiwrnod hyfryd ar Sul 28 Mehefin ar drip blynyddol yr ofalaeth. Croesawyd ni i Gapel Blaenannerch gan y Cynghorydd John Adams-Lewis, a chyfle i glywed yr hanes am Evan Roberts a Diwygiad 1904-5 a phwysigrwydd y capel yn y stori. Wedi hynny cynhaliwyd oedfa fer gydag Elsi, Janet, Hannelia, Jen ac Alan yn cymryd rhan a'r gweinidog yn arwain, a chinio ysgafn i ddilyn yn y festri. Ymlaen wedyn i Aberteifi, ac ar ôl crwydro'r dref, anerchiad afieithus gan Mr Rhidian Evans, ysgrifennydd Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion, yn rhannu ei wybodaeth helaeth â hanes ei dref enedigol. Bu'r tywydd yn ffafriol ar hyd y dydd, a'r gymdeithas yn felys. Fel arfer roedd yn gyfle i ddysgu pethau newydd ac i fwynhau cwmni'n gilydd. Cafwyd gwledd ar y ffordd adref ym mwyty'r Bryn a'r Bragdy ym Mrynhoffnant. Diolchwyd i'r trefnwyr, Mair a Delyth nad oeddent yn gallu bod gyda ni, ac yn arbennig i Ann o oresgynnodd lawer problem wrth sicrhau llwyddiant yr achlysur.

